

Mark Drakeford AS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg

10 Hydref 2024

Bil y Gymraed ac Addysg (Cymru)

Annwyl Mark,

Byddem yn gwerthfawrogi cael eglurhad o'r geiriad yn adran 23(3) o Fil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) (y Bil).

Mae adran 23(3) o'r Bil yn nodi bod rhaid i'r Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg nodi, yn benodol, y camau y bydd Gweinidogion Cymru yn eu cymryd i hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg. Yn y fersiwn Saesneg o'r Bil, yn adran 23(3)(e), mae'n ymddangos bod gwall drafftio, gan nad yw 'to facilitate' yn llifo o'r geiriau rhagarweiniol yn is-adran (3). I roi hyn yn ei gyd-destun, os darllenir geiriau rhagarweiniol is-adran (3) a pharagraff (e) gyda'i gilydd, mae'n nodi 'The National Framework for Welsh Language Education and Learning Welsh must, in particular, set out the steps the Welsh Ministers will take to promote and facilitate the use of Welsh **by to facilitate** progression in teaching Welsh and education through the medium of Welsh...'.

Mater arall a nodwyd yn adran 23(3) yw bod paragraff (e) yn y fersiwn Gymraeg o'r Bil yn nodi 'annog dilyniant' a bod y fersiwn Saesneg yn nodi 'to facilitate progression'. Ar wahân i'r un enghraifft hon, bob tro y defnyddir 'facilitate' neu 'facilitating' yn y fersiwn Saesneg o'r Bil, defnyddir 'hwyluso' yn hytrach nag 'annog' yn y fersiwn Gymraeg. Pan ddefnyddir 'annog' mewn manau eraill o'r fersiwn Gymraeg o'r Bil, sef adrannau 1(1)(d) a 22(2)(a), y gair a ddefnyddir yn y fersiwn Saesneg yw 'encourage'. Ymddengys i ni nad yw'r mater a nodir ym mharagraff blaenorol y llythyr hwn ynglŷn â llif y geiriau yn y fersiwn Saesneg yn effeithio ar y fersiwn Gymraeg o'r Bil.

Gofynnwn i chi gadarnhau'r geiriad cywir ar gyfer adran 23(3)(e) o'r Bil, yn y ddwy iaith. Os oes angen unrhyw ddiwygiadau, gofynnwn i chi gadarnhau a fydd y rhain yn cael eu gwneud yng Nghyfnod 2.



Byddai'n ddefnyddiol pe gallem gael ymateb cyn ein sesiwn graffu nesaf ddydd Iau 17 Hydref, gan ei fod yn berthnasol i dystiolaeth yr ydym wedi'i chael gan randdeiliaid.

Yr gywir,



Buffy Williams AS
Caerdydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English